Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Lilian Hopkin, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 11 Ebrill 2024 am 2.00pm**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Cynghorwyr** | **Cynghorwyr** | **Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C R Doyle | W G Lewis | P Lloyd |
| N L Matthews | S J Rice | W G Thomas |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Samantha Jenkins | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Jones | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Paul Relf | Rheolwr Adfywio Economaidd Strategol |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: T M White

---

## 34 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 35 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 29 Chwefror 2024 fel cofnod cywir.

## 36 Cynllun Gweithredu Coridor Glannau'r Tawe

Cyflwynodd y Rheolwr Adfywio Economaidd Strategol adroddiad dros dro am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Glannau Afon Tawe.

Nododd yr aelodau gyd-destun ardal Glannau Afon Tawe, Cais Ffyniant Bro Cwm Tawe 2023, yr Achos Economaidd ac Effaith y Cais Ffyniant Bro, rhaglen ehangach Gwaith Copr yr Hafod-Morfa a'r camau nesaf a'r ffordd ymlaen.

Roedd cwestiynu a thrafodaethau'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Pontynau a'r defnydd o dacsis afon.
2. Hygyrchedd yr amgueddfa ar gyfer storio arteffactau.
3. Datblygu'r llwybr beiciau/llwybr cerdded a defnyddiau masnachol posib eraill ar gyfer yr ardal.
4. Datblygu defnyddiau preswyl dan y CDLl.
5 Cynnydd o ran yr Uwchgynllun.
6. Adfer y Bont Wrthbwys.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Adfywio Economaidd Strategol am ei adroddiad llawn gwybodaeth.

**Penderfynwyd:**

1. Cyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod o'r Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau yn y dyfodol er mwyn gwerthuso'r cwmpas ar gyfer prosiectau pellach ac adrodd yn ôl am gynnydd gyda phrosiectau Ffyniant Bro Cwm Tawe Isaf ac adfywio safleoedd allweddol.

## 37 Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd 2023-2024.

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd 2023-2024 'er gwybodaeth.'

Roedd yr adroddiad yn crynhoi canlyniadau ac allbynnau rhaglen waith y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd yn 2023/24.

Byddai'r adroddiad yn cael ei uno â'r adroddiadau blynyddol ar gyfer y 4 Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau eraill a'i gyflwyno i'r Cyngor maes o law.

## 38 Cynllun Gwaith

Nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor bellach wedi gorffen ei gynllun gwaith ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2023-2024 a diolchodd i aelodau'r pwyllgor a swyddogion am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.32pm

**Cadeirydd**